

Draenen Paul yn ei gnawd

“*Deisyfais ar yr Arglwydd dair gwaith ar iddo ‘i symud oddi wrthyf.*” (adn.8)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 12:1–10 ac yna myfyrio

Gan ddilyn ymlaen o’r hyn a ddywedais ddoe, rwy’n rhag-weld os na fydd cwmselwyr Cristnogol yn dechrau sylweddoli bod bywydau pawb yn stori, os na ddysgan nhw wrando ar y stori mae Duw yn ei hadrodd ym mywyd person a chyd-fynd â hynny, yna fe fyddan nhw’n methu â helpu pobl yn y ffordd y maen nhw angen eu helpu. Fe siaradais ychydig yn ôl efo cwmselydd Cristnogol ifanc oedd dan hyfforddiant a gofynnais iddo pa nod oedd o wedi ei osod ar ei gyfer ei hun pan fydd yn ceisio helpu eraill. Fe atebodd: “Wel, yn naturiol cael gwared ar y broblem.” Fe awgrymais wrtho y dylai fod nod uwch na hynny i gwmsela Cristnogol na datrys problemau; y nod ddylid ei gosod yw *adnabod Duw yn y broblem*.

Dychmygwch y dyn ifanc hwnnw’n eistedd i lawr gyda’r apostol Paul, sydd yn y testun o’n blaenau heddiw, yn sôn am broblem oedd ganddo fel “draenen yn fy nghnawd”. Os mai ei nod oedd cael gwared ar broblem Paul yna byddai wedi bod yn gweithio yn groes i fwriadau Duw. Yn amlwg, roedd yr Arglwydd yn caniatáu i’r broblem barhau ym mywyd Paul am ei fod yn gweithio er gwneud yr apostol yn berson mwy dibynnol arno a diamddiffyn hebdo.

Ar lawer achlysur rwyf wedi eistedd gyda rhywun sydd mewn trafferthion, ac ar ôl ceisio deall pa ran a chwaraeai eu problem nhw yn stori Duw, rwyf wedi dweud rhywbeth yn debyg i hyn wrthyn nhw: “Rhaid i chithau hefyd aros gyda’r broblem hon am ychydig eto am fod Duw yn ei defnyddio i ddyfnhau eich cymeriad a’ch cymell i mewn i berthynas agosach ag Ef ei hun.” Y nod uchaf sydd yn rhaid i ni ei chael pan ydym yn ceisio helpu rhywun yn ysbrydol ydy, nid datrys y broblem, ond deall amlinelliad y stori y gall fod Duw yn ei sgwennu. Mae unrhyw beth llai na hyn yn Gristnogaeth ddiffygiol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 38:9–15;
Math. 26:36–42

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa fendithion ysbrydol welodd Heseceia o’i salwch?
2. Sut datblygodd gweddi Iesu?

Gweddi Fy Nhad a’m Duw, diolch iti am f’atgoffa nad datrys problemau yw nod uchaf y Cristion. Dy adnabod Di ydy’r nod uchaf. Gwna fi’n gwbl ymwybodol o’r gwirionedd hwn. Yn Enw Iesu. Amen.